

Bywyd – llafur

“Y mae angen dyfalbarhad arnoch i gyflawni ewyllys Duw a chymryd meddiant o’r hyn a addawyd.” (adn. 36)

Beth am ddarlflen Hebreaidd 10:19–39 ac yna myfyrio

Yn ôl y seiciatrydd Victor Frankl a oedd yn enwog am ddyfalbarhau drwy holocost y Natsïaidd, yr unig reswm pam na fu iddo gael ei lofruddio ochr yn ochr â’i gyd-Iddewon oedd fod ganddo wybodaeth feddygol oedd o fantais i nifer o’r swyddogion Natsïaidd. Er hynny, bu rhaid iddo ddiodeff llawer, ond bu iddo ddyfalbarhau a byw.

Wedi ei ryddhau ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, ysgrifennodd: “Y rheswm pam fod cymaint o bobl yn anhapus ac yn ceisio cymorth i ddelio â bywyd yw eu bod yn methu â deall beth yw hanfod y bywyd dynol. Nes y byddwn yn cydnabod fod bywyd, nid yn unig yn rhywbeth i’w fwynhau, ond yn llafur sydd wedi ei osod ar gyfer pob un ohonom, ni fyddwn byth yn darganfod ystyr ein bywyd ac ni fyddwn byth yn llawen mewn gwirionedd.” Mae’r ffordd y bu i Victor Frankl resymu yn gwneud synnwyr i mi er nad yw yn cyd-fynd â’r hyn a ddywedwyd wrthyh ers i chi ddod yn Gristion. Y mae yna rai diwrnodau, o fod yn onest, pan fo bywyd yn anodd ac yr ydym yn cyflawni camp yn byw trwy’r diwrnodau hynny. Felly, mae dyfalbarhad yn allweddol.

Yn ôl Iddew arall, yr ydym yn llawenhau hyd yn oed yn ein dioddefiadau gan ein bod yn gwybod fod dioddefaint yn esgor ar ddyfalbarhad. (Rhufeiniad 5:3). Mae dioddefaint am aros yn y byd ond, fel yr apostol Paul, gallwn lawenhau yn ein dioddefiadau oherwydd ein bod yn gwybod yr elw sydd yn medru deillio oddi wrthynt. Pan fo arweinwyr Cristnogol yn anfoesol neu yn llithro i anghrediniaeth, pan fo gwaelod yn diflannu, pan fo amgylchiadau am ein curo a’n gosod yng nghornel anghrediniaeth ac amheuaeth, rhaid inni wrth ddyfalbarhad. Heb ddyfalbarhad, yr ydym yn llithro ac yn methu. Efallai y bu ichi fethu o’r blaen, efallai y bu ichi syrthio o’r blaen, ond rhaid penderfynu heddiw trwy ras Duw eich bod am ddyfalbarhau hyd y diwedd.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Actau 13:49–52; 14:8–20; 20:22–24

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut oedd Paul yn ystyried ei fywyd?
2. A wyt ti’n gweld dy fywyd fel llafur, fel prawf, neu fel trysor?

Gweddi

O Dad, y mae angen i mi atgoffa fy hunan beunydd wrth dy orsedd, os byddaf yn aros ynot ti, yna ni fydd angen i mi faglu na llithro. Arglwydd, cryfha fy mwriad i ddyfalbarhau er mwyn i mi gael fy synnu gan dy ras a’th drugaredd. Yn enw Iesu Grist. Amen.